# Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil gweithlu 2019: Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir

Data Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Crynodeb 2

Cefndir 3

Deall y data 4

Dadansoddi'r data 5

Atodiad A – Y ffurflen casglu data 18

Atodiad B - Tablau ychwanegol 19

Cynhyrchwyd gan yr: Data **Cymru**
Cyhoeddwyd: Ionawr 2021
www.data.cymru
029 2090 9500
ymholiadau@data.cymru
Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

# Gweithlu gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir – Cymru 2019

**220** o wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir yng Nghymru

**10,800*** yn gweithio i'r gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir

## oedran

| | |
|---|---|
| <25 | 5% |
| 25-30 | 8% |
| 31-40 | 17% |
| 41-50 | 23% |
| 51-60 | 33% |
| 61-70 | 13% |
| >70 | 1% |

1,020 yn gadael

yn ymuno 1,210

rhyw

13%

87%

**1 o bob 7** yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg

**72%** o wasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir a **50** neu lai o staff

math o wasanaeth

Preswyl 37%

Cartref 37%

Dydd ac arall 22%

*Oherwydd ymyrraeth a achoswyd gan bandemig COVID-19, nid oedd pob awdurdod lleol yn gallu darparu ymatebion digonol i ganiatáu am briodoli'r data coll, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r ffigur hwn yn gymaradwy â blynyddoedd blaenorol.

## Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o gasgliad data gweithlu gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) Gofal Cymdeithasol Cymru 2019. Ei nod yw helpu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac awdurdodau lleol i ddeall y gweithlu yn well.
- Mae gwasanaethau a reoleiddir yn wasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol Cymru ac yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiad Gofal Cymru (AGC).
- Cymerodd pob un o 22[1] awdurdod lleol Cymru ran yng nghasgliad 2019 a darparu ymatebion.
- Arolygwyd dros 220 o wasanaethau a reoleiddir ar gyfer yr adroddiad hwn.
- Trafododd yr ymatebion 94%[2] o wasanaethau a reoleiddir ar draws Cymru, gan gynnwys data a adeiladwyd.
- Roedd cwmpas datganiadau awdurdodau lleol unigol yn amrywio o 41% mewn un awdurdod lleol i 100% mewn 15 awdurdod arall.
- Amcangyfrifwn fod gan y gwasanaethau a reoleiddir hyn weithlu o ychydig o dan 11,000 o staff. Oherwydd ymyrraeth a achoswyd gan bandemig COVID-19, nid oedd pob awdurdod lleol yn gallu darparu ymatebion digonol i ganiatáu am briodoli'r data coll, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r ffigur hwn yn gymaradwy â blynyddoedd blaenorol.
- Oherwydd natur y data nid yw'n briodol yn ein barn ni i wneud cymariaethau uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol. Serch hynny, rydym unwaith eto, wedi cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r data a gyflwynwyd i ni (y data 'a ddychwelwyd' a'r data 'a adeiladwyd'), ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

[1] Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

[2] Ar sail y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys data sydd wedi ei gynhyrchu gan ddefnyddio datganiadau data y llynedd (data a 'adeiladwyd').

# Cefndir

Bob blwyddyn mae awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am weithlu darparwyr gofal cymdeithasol allanol sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2013, mae Cyngor Gofal Cymru (CCW), sydd bellach yn cael ei alw'n Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), wedi ein comisiynu ni, Data **Cymru** (Uned Ddata Cymru gynt), i weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am weithlu'r darparwyr gofal hyn a gomisiynwyd [3].

Yn hwyr yn 2017, estynnwyd y gwaith casglu a dadansoddi data'r gweithlu i gwmpasu gweithlu gwasanaethau awdurdodad lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol Cymru a/neu'n cael eu rheoli ganddynt ac sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r 2019 casgliad am wasanaethau a reoleiddir.

[3] Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd.

# Deall y data

Gofynnwyd i awdurdodau lleol arolygu holl wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, a reolir gan awdurdodau lleol Cymru ac a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gallai hyn gynnwys darparwyr gofal preswyl, darparwyr gofal cartref a gofalwyr maeth awdurdodau lleol, ond nid yw'n cynnwys gwasanaethau gofal dydd.

Cawsom ymatebion oddi wrth bob un o'r 22[4] awdurdod lleol.

Roedd yr ymatebion a gawsom yn cyfuno:

- Data a gasglwyd yn uniongyrchol oddi wrth ddarparwyr gofal a gomisiynwyd (data 'a ddychwelwyd'); a
- Data a 'adeiladwyd'[5] gan yr awdurdodau lleol gan ddefnyddio data a oedd ar gael yn lleol o 2018.

Gwelir copi o ffurflen casglu data 2019 yn **Atodiad A**.

## Ansawdd data

Ni allwn ddarparu cymhariaeth ddibynadwy â'r llynedd. Mae llawer o ffactorau a allai ddylanwadu ar wahaniaethau yn y data o un flwyddyn i'r llall. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau ym maint a/neu fath o ddarparwyr a arolygwyd a swm y data a oedd wedi ei amcangyfrif. This year, the disruption by COVID-19 has also impacted on the volume and quality of data received. Fel y cyfryw, nid yw'n hysbys i ba raddau mae'r gwahaniaethau hyn yn cynrychioli newid go iawn. Lle bo'n briodol, rydym wedi rhoi sylwadau ar batrymau ar draws rhai categorïau data a sut mae hyn yn cymharu â'r llynedd.

## Cyfraddau ymateb

Ledled Cymru yn 2019, dychwelwyd 87% o'r 222 o ffurflenni casglu data a gyhoeddwyd, a oedd yn amrywio o 6% mewn un awdurdod lleol i 100% mewn 13 o rai eraill. Adeiladodd awdurdodau lleol ddata am 14 gwasanaeth ychwanegol a reoleiddir yn 2019, gan ddod â'r gyfradd ymateb gyffredinol i 94% ar gyfer 2019.

Gwelir data am nifer y gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn fesul awdurdod lleol yn **Tabl 7** o **Atodiad B**.

## Amcangyfrif am ddata coll

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, i ddarparu amcangyfrifon rhanbarthol a chenedlaethol o weithlu gwasanaethau a reoleiddir, bu'n rhaid amcangyfrif data am y darparwyr gofal a gomisiynwyd a fethodd ag ymateb, a lle nad oedd data 2018 ar gael i 'adeiladu' datganiad ar gyfer 2019 arno. Mae'r broses hon yn cael ei galw'n 'priodoli'.

Eleni nid oeddem yn gallu priodoli gan ddefnyddio data awdurdodau lleol na data lefel ranbarthol oherwydd cyfraddau ymateb isel oddi wrth nifer o awdurdodau lleol. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ymyrraeth a achoswyd gan bandemig COVID-19. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu cyfrifo amcangyfrif o gyfanswm y gweithlu. Mae'r holl ddadansoddiadau data eraill yn dal i fod ar gael.

---

[4] Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

[5] Lle nad yw darparwr wedi cyflwyno datganiad eleni, gall awdurdod lleol ddewis 'adeiladu' ymateb gan ddefnyddio gwybodaeth y flwyddyn flaenorol os ydynt yn credu nad yw'n debygol bod y data wedi newid yn sylweddol.

# Dadansoddi'r data

Mae gofal cymdeithasol yn wasanaeth a gynigir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar sail y data a ddarparwyd i ni, ychydig dros 222 o wasanaethau a reoleiddir gan awdurdod lleol a ddarparodd ofal cymdeithasol i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2019. Mae nifer y darparwyr gofal a reoleiddir gan awdurdodau lleol wedi gostwng ers 2018. I gael rhagor o wybodaeth am y darparwyr gofal a reoleiddir gan awdurdodau lleol a arolygwyd, gweler **Atodiad B**.

Rhydd yr adran hon ddadansoddiad manylach o weithlu gwasanaethau a reoleiddir. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys dim ond y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol; gan gynnwys data sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio datganiadau data y llynedd (data a 'adeiladwyd'). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfran yn unig (94%) o wasanaethau a reoleiddir ac, fel y cyfrw, dylid eu defnyddio gyda gofal. Gwelir manylion pellach y cyfraddau ymateb ledled Cymru yn Tabl 7**Tabl 8** o **Atodiad B**.

Casglwyd data ar sail y math o ofal a ddarperir. Mae'r rhain wedi eu categoreiddio fel:

- Preswyl (a rennir yn breswyl gyda gofal nyrsio a phreswyl heb ofal nyrsio);
- Cartref;
- Dydd ac arall (cyfuniad o ofal dydd a gwasanaethau eraill nad ydynt yn dod o dan yr un o'r categorïau eraill); a
- Cymysg (mwy nag un o'r uchod).

**Tabl 1: Nifer y darparwyr gofal a reoleiddir yn ôl rhanbarth, Cymru, 2019**

| | **Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir** |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 46 |
| Canolbarth & Gorllewin | 39 |
| Bae'r Gorllewin | 48 |
| De-Dwyrain | 89 |
| **Cymru** | 222 |

**Tabl 2: Nifer y darparwyr gofal a reoleiddir yn ôl math, Cymru, 2019**

| | Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir |
|---|---|
| Preswyl | 112 |
| Cartref | 43 |
| Dydd ac arall | 59 |
| Cymysg | 8 |
| **Cyfanswm** | 222 |

# Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir


## Math o ddarpariaeth

Ledled Cymru, darparodd y mwyafrif (50%) o wasanaethau a reoleiddir ofal preswyl yn 2019, gan amrywio o 100% yn Sir Benfro i 0% yn Wrecsam a Thorfaen. Darparodd 27% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau dydd ac eraill, darparodd 19% wasanaethau gofal cartref a darparodd 4% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau 'cymysg'. Gan Sir Fynwy oedd y gyfran uchaf o wasanaethau dydd ac eraill (88%), tra bod gan Wrecsam y gyfran fwyaf o wasanaethau gofal cartref (60%).

Dengys **Ffigur 1** fod:

- Canran y gwasanaethau a reoleiddir a oedd yn cynnig **gofal preswyl** yn amrywio o 40% o'r rhai a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol ym Mae'r Gorllewin i 56% yn y Canolbarth a'r Gorllewin;
- Awdurdodau lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin oedd â'r ganran isaf o **wasanaethau gofal cartref** a reoleiddir at 13%, tra bod gan Ogledd Cymru yr uchaf ar 26%;
- Awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru oedd â'r ganran isaf o **wasanaethau gofal dydd ac arall** a reoleiddir at 13%, tra bod gan Fae'r Gorllewin yr uchaf ar 38%; ac
- Gan Ganolbarth a'r Gorllewin oedd y ganran isaf o wasanaethau **darpariaeth gymysg** a reoleiddir sef 0%, tra bod gan Ogledd Cymru yr uchaf ar 13%.

**Ffigur 1: Canran darparwyr gofal a gomisiynwyd yn ôl math, fesul rhanbarth, 2019**



## Cleientiaid

Yng Nghymru, darparodd 25% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau i blant, darparodd 37% wasanaethau i oedolion[6] a darparodd 52% wasanaethau i bobl hŷn. Darparodd 3% wasanaethau i grwpiau cleientiaid 'eraill'[,7].

Darparodd 60% o wasanaethau a reoleiddir yng Nghaerdydd wasanaethau i blant. Dyma'r ganran uchaf ledled holl awdurdodau lleol Cymru gan 7 pwynt canrannol, yr uchaf nesaf oedd Castell-nedd Port Talbot gyda 53% o wasanaethau a reoleiddir yn darparu gwasanaethau plant. Nid oedd yr un o'r gwasanaethau a reoleiddir yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Benfro a Sir Fynwy yn darparu gwasanaethau i blant.

Roedd canran y darparwyr gofal a ddarparodd wasanaethau i bobl hŷn yn amrywio o 100% yn Sir y Fflint i 16% yn Nghastell-nedd Port Talbot.

Nid oedd yr un o'r gwasanaethau a reoleiddir yn Ynys Mon neu Ceredigion yn darparu gwasanaethau i oedolion, o'u cymharu â 83% ym Mro Morgannwg.

**Tabl 3** nifer a chanran gwasanaethau a reoleiddir yn ôl grŵp cleientiaid ar lefel ranbarthol.

**Tabl 3: Nifer a chanran gwasanaethau a reoleiddir yn ôl grŵp cleientiaid, yn ôl rhanbarth, 2019**[8]

| | Nifer | | | % | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Plant** | **Oedolion** | **Pobl hŷn** | **Plant** | **Oedolion** | **Pobl hŷn** |
| Gogledd Cymru | 7 | 12 | 31 | 16 | 27 | 70 |
| Canolbarth & Gorllewin | 8 | 12 | 19 | 22 | 32 | 51 |
| Bae'r Gorllewin | 16 | 22 | 18 | 33 | 46 | 38 |
| De-Dwyrain | 21 | 31 | 41 | 27 | 39 | 52 |
| **Cymru** | 52 | 77 | 109 | 25 | 37 | 52 |

## Maint y sefydliad

Cyflogai'r mwyafrif (34%) o wasanaethau a reoleiddig yng Nghymru rhwng 10 a 25 o staff. Cyflogai 12% fwy na 100 o staff, tra bod dim ond 6% yn cyflogi llai na deg o staff. Ledled Cymru, roedd gan wasanaethau dydd ac arall y nifer uchaf o sefydliadau yn cyflogi llai na deg o staff (16%), tra bod gan wasanaethau gofal cartref y nifer uchaf o sefydliadau â mwy na 100 o staff (32%). Dengys **Tabl 4** ganran y darparwyr gwasanaeth a reoleiddir yn ôl maint eu sefydliad a'r math o ddarparwr.

**Tabl 4: Canran y gwasanaethau a reoleiddir yn ôl maint y sefydliad, yn ôl math o ddarparwr, 2019**

%

| | Maint y corff (staff a gyflogir) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **llai na 10** | **10 – 25** | **26 – 50** | **51 – 100** | **mwy na 100** |
| Preswyl | 4 | 34 | 47 | 13 | 3 |
| Cartref | 2 | 20 | 12 | 34 | 32 |
| Dydd ac arall | 16 | 49 | 14 | 4 | 16 |
| Cymysg | 0 | 13 | 38 | 38 | 13 |

[6] Mae 'oedolion' yn cynnwys oedolion ag anableddau dysgu, oedolion â salwch meddwl ac oedolion ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau.

[7] Gan y gall darparwyr ddarparu gwasanaethau i fwy nag un grŵp cleientiaid, mae'n bosibl na fydd data yn adio i 100%.


[8] Ibid

## Proffil staff

### Rolau

Yn yr un modd ag yn 2018, roedd mwyafrif (64%) y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu'n Gynorthwywyr Gofal, fel y dangosir yn **Ffigur 2**. Roedd y ganran a oedd yn Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu'n Gynorthwywyr Gofal yn amrywio o 32% yn Powys i 88% yn Sir y Fflint. Nid oedd unrhyw Gynorthwywyr Personol Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cyflogi gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru ac roedd llai nag 1% o staff yn Staff Nyrsio Cofrestredig.

**Ffigur 2: Canran y staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019[9]**




Rhydd **Tabl 5** ddadansoddiad o'r staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl a math o ddarparwr. Parhaodd gwasanaethau gofal cartref i gyflogi'r ganran uchaf o Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwywyr Gofal sef 86%, o'u cymharu â 11% a gyflogwyd gan wasanaethau gofal dydd ac arall. Roedd Uwch Weithwyr Gofal yn cyfrif am 8% o'r staff a gyflogwyd gan wasanaethau gofal cartref, o'u cymharu â 1% mewn gwasanaethau dydd ac arall.

**Tabl 5: Canran y staff a gyflogir gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl a math o ddarparwr, 2019**

[9] Mae staff eraill yn cynnwys unrhyw staff eraill sydd heb eu cynnwys yn y rolau eraill e.e. garddwyr, gyrwyr ac ati.


| | Rheolwr | Dirprwy Rheolwr/ Rheolwr Cynorthwyol | Uwch Weithiwr Gofal | Gweithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwywyr Gofal | Gweithwyr Cymdeithasol Cofrestredig | Staff Nyrsio Cofrestredig (ac eithrio rheolwyr) | Gofalwyr Maeth | Gofalwyr Lleoliad Oedolion | Cynorthwywyr Personol a Delir yn Uniongyrchol | Staff Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Preswyl** | 2.6 | 3.0 | 4.0 | 70.9 | 0.2 | 0.0 | 2.1 | 0.0 | 0.0 | 17.1 |
| **Cartref** | 1.7 | 1.6 | 7.7 | 86.5 | 0.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.2 |
| **Dydd ac arall** | 2.0 | 1.6 | 0.9 | 11.3 | 8.3 | 0.0 | 69.1 | 1.1 | 0.0 | 5.6 |
| **Cymysg** | 2.7 | 2.9 | 8.0 | 80.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 5.5 |

%

## Cymwysterau

Dengys **Ffigur 3** ganran y staff (ac eithrio gweithwyr cymdeithasol cofrestredig a staff nyrsio cofrestredig) o fewn gwasanaethau a reoleiddig yr adroddwyd bod ganddynt y cymwysterau gofynnol/a argymhellir am eu rôl.

**Ffigur 3: Canran staff o gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2019**




Gwelir manylion pellach am wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 10** o **Atodiad B**.

Roedd gan 94% o reolwyr gwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru y cymwysterau gofynnol/a argymhellir, gan amrywio o 60% yn Abertawe i 100% mewn 14 o awdurdodau lleol eraill, tra bod gan 88% o ddirprwy reolwyr/rheolwyr cynorthwyol ledled Cymru y cymwysterau gofynnol/ a argymhellir, gan amrywio o 69% yn Powys i 100% mewn wyth awdurdodau lleol arall.


Roedd gan 85% o staff a gyflogwyd fel uwch weithwyr gofal y cymwysterau gofynnol/a argymhellir. Roedd hyn yn amrywio o 57% yn Nhorfaen i 100% mewn pump awdurdodau lleol arall.

Cyflawnodd 6% o staff gwasanaethau a reoleddir eu cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ystod 2019, tra bod 9% o staff yn parhau i weithio tuag atynt.

## Recriwtio a chadw

During 2019, cafodd dros 1,210 o staff eu recriwtio gan wasanaethau a reoleiddir a gadawodd ychydig o dan 1,030 o staff wasanaethau a reoleiddir yn ystod y flwyddyn. Gan ei bod yn bosibl bod rhai staff wedi cael eu recriwtio **ac** wedi gadael yn ystod y flwyddyn, mae'n anodd bod yn fanwl gywir am yr effaith net ar niferoedd cyffredinol staff. Fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu cynnydd o ryw 180 o staff yn ystod y flwyddyn. Dengys **Ffigur 4** fod y mwyafrif o wasanaethau a reoleiddir ledled Cymru wedi recriwtio nifer uwch o staff na'r nifer a adawodd.

**Ffigur 4: Nifer y staff a recriwtiwyd neu a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl awdurdod lleol, 2019[10]**





Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Rhondda Cynon Taf a recriwtiodd 18% o'r staff gwasanaethau a reoleiddir a gafodd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 0.2% a gafodd eu recriwtio gan Ferthyr Tudful.

Roedd 12% o'r holl weithwyr a adawodd gyflogaeth gwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2019 yn cael eu cyflogi gan Blaenau Gwent a Chaerffili, tra bod dim ond 0.3% yn cael eu cyflogi gan Sir Fynwy.


Gadawodd 12% o staff staff gofal cartref a oedd mewn swyddi mewn gwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru yn ystod 2019. Yn yr un cyfnod, gadawodd 9% o staff gofal preswyl, 7% o staff gwasanaethau dydd ac arall a 6% o staff gwasanaethau 'gofal cymysg' a reoleiddir. Dengys **Ffigur 5** sut mae canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn amrywio yn ôl math a rhanbarth.

[10] Y sawl a recriwtiwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl staff mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sawl a adawodd yn ganran yr holl staff mewn swydd ar ddechrau'r flwyddyn.

**Ffigur 5: Canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl math o ddarparwyr, fesul rhanbarth, 2019**




**Ffigur 6: Canran y staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019**





Mae manylion pellach staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwyr gofal ar gael yn **Figure 11** o **Atodiad B**.

Fel y dengys **Ffigur 6** uchod, gadawodd 12% o Weithwyr Cymdeithasol Cofrestredig gyflogaeth gwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2019. Mae hyn yn cymharu â 6% o Ofalwyr Maeth.

Dengys **Ffigur 7** y sawl a oedd yn gadael y sector, y sawl a aeth i weithio am ddarparwr gofal arall a’r sawl a ymddeolodd fesul awdurdod lleol. Yng Nghymru, o’r 48% o adawyr yr oedd eu cyrchfan yn hysbys, gadawodd 24% y sector, aeth 14% i weithio am ddarparwr gofal arall ac ymddeolodd 10%.

**Ffigur 7: Canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl cyrchfan, fesul awdurdod lleol, 2019**




## Swyddi gwag

Gan Abertawe oedd y ganran uchaf o swyddi gwag a adroddwyd (26%) am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru. Nid oedd gan Sir Gar, Ben-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Chaerdydd unrhyw swyddi gwag. Roedd 68% o’r swyddi gwag a adroddwyd ar draws gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru am Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwywyr Gofal. Mae hyn yn amrywio o 100% o swyddi gwag Sir Ddinbych, Ceredigion a Sir Benfro i 0% o swyddi gwag yng Nghastell-neddh Port Talbot gan y swyddi gwag a adroddwyd am Staff Eraill y ganran uchaf nesaf ar 17% o’r holl swyddi gwag.

## Nodweddion y gweithlu

Darparwyd data am amrywiol nodweddion y gweithlu am o leiaf 86% o staff gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn. Gwelir data am y gyfradd ymateb ar gyfer pob nodwedd yn **Tabl 10** o **Atodiad B**.


### Rhyw

Roedd y mwyafrif (87%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn fenyw. Roedd ychydig dros un o bob wyth o'r gweithlu yn wryw. Roedd gan wasanaethau a reoleiddir Powys y ganran uchaf o staff gwryw ar 38% tra bod gan wasanaethau a reoleiddir Sir y Fflint y ganran isaf sef 3%.

### Oed

Roedd y mwyafrif (33%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn 51 i 60 mlwydd oed. Adlewyrchwyd hyn ar lefel leol hefyd. Ledled Cymru, roedd 23% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn 41 i 50 oed, ac roedd 17% yn 31 i 40 oed. Ar draws darparwyr, ddarparwyr gofal cymysg a gyflogodd 7% o staff darparwyr gofal a gomisiynwyd o dan 25 oed, tra bod 2% o'r staff gofal dydd ac arall yn 25 oed ac yn iau. Roedd gan bob math o ddarparwr weithlu o 2% neu lai a oedd yn 71 oed a throsodd. Dengys **Ffigur 8** ddadansoddiad oedran staff a gyflogwyd yn ôl math o ddarparwr gofal a gomisiynwyd.

**Ffigur 8: Canran y staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl oedran a math o ddarparwyr, Cymru, 2019**




### Ethnigrwydd

O'r 86% o staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yr adroddwyd eu hethnigrwydd, datganodd 81% eu hethnigrwydd fel Gwyn. Roedd yn well gan 18% o staff beidio â datgan eu hethnigrwydd. Dengys **Tabl 6** y dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol o ethnigrwydd staff gwasanaethau a reoleiddir.

**Tabl 6: Canran y staff gwasanaethau a reoleiddir yn ôl ethnigrwydd, yn ôl awdurdod lleol a rhanbarth, 2019**


%

| | Gwyn | Grwpiau ethnig cymysg/ lluosog | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig | Grŵp ethnig arall | Gwell beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 99 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 95 | 1 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Conwy | 36 | 0 | 1 | 0 | 0 | 62 |
| Sir Ddinbych | 71 | 0 | 0 | 0 | 0 | 29 |
| Sir y fflint | 99 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Wrecsam | 98 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gogledd Cymru | 84 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| Powys | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 67 | 0 | 0 | 1 | 0 | 32 |
| Sir Benfro | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 83 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 |
| Canolbarth & Gorllewin | 86 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13 |
| Abertawe | 19 | 0 | 0 | 1 | 0 | 80 |
| Castell Nedd Port Talbot | - | - | - | - | - | - |
| Pen y Bont ar Ogwr | 97 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Bae'r Gorllewin | 60 | 0 | 0 | 1 | 0 | 38 |
| Bro Morgannwg | 96 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 99 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 99 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 71 | 0 | 0 | 0 | 0 | 28 |
| Casnewydd | 93 | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 78 | 1 | 0 | 3 | 0 | 18 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 92 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| De-Ddwyrain | 93 | 1 | 0 | 1 | 0 | 5 |
| **Cymru** | 81 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 |

## Oriau gweithio

Ledled Cymru, roedd 31% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn, tra bod 69% yn gweithio'n rhan amser. Roedd hyn yn amrywio o 77% o staff gwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn yng Nghonwy i 6% yn Abertawe. Dengys **Ffigur 9** y ganran ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Ffigur 9: Canran y staff gwasanaethau a reoleiddir yn ôl oriau a weithiwyd, yn ôl awdurdod lleol, 2019**




Gwelir manylion pellach am staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwr gofal yn **Figure 11** o **Atodiad B**.

## Statws cytundebau

Roedd 78% o staff gwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru ar gontractau parhaol. Roedd hyn yn amrywio o 100% o staff ym Merthyr Tudful a Chasnewydd i 38% yn Powys.

Gwelir manylion pellach am statws contractiol staff am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 13** o **Atodiad B**.

## Statws anabledd

Nododd 2% o'r staff gwasanaethau a reoleiddir a ymatebodd eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd. Roedd hyn yn amrywio o 15% o staff yn Ynys Mon i 0% mewn saith awdurdod lleol arall.

## Iaith

Yng Nghymru, gallai 15% of staff mewn gwasanaethau a reoleiddir gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod llai na 1% o staff heb y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf.

# Atodiad A – Y ffurflen casglu data

Cafodd y ffurflenni casglu data eu rhannu ag awdurdodau lleol yn 2019. Cliciwch ar y ddelwedd isod, lle gallwch weld enghraifft o'r ffurflen. Sylwch mai fel enghraifft yn unig y mae Ynys Môn wedi cael ei defnyddio ac nad yw'r ffurflen yn cynnwys unrhyw ddata.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC)**

**Gweithlu Casglu Data 2019**

Canllawiau

**DYLAI'R CASGLIAD DATA HWN GYNNWYS DIM OND Y CYFLOGEION HYNNY SY'N GWEITHIO O FEWN Y BWRDEISTREF SIROL.**

**Defnyddiwch yr hyper-ddolenni ar waelod pob tudalen i lywio i'r dudalen nesaf.**

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r sefydliad | | V |
| Cyfeiriad y sefydliad | | V |
| Enw'r cwmni rhiant | | Gwiriwch |

**Manylion cysyllt ar gyfer y berson sy'n cwblhau'r ffurflen**

| | | |
|---|---|---|
| Enw llawn | | V |
| Teitl swydd | | V |
| Rhif ffon | | V |
| Cyfeiriad e-bost | | V |

**Manylion y rheolwr cofrestredig (os yw'n wahanol i'r person sy'n llenwi'r ffurflen)**

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r rheolwr cofrestredig | | Gwiriwch |
| Rhif ffon | | Gwiriwch |
| Cyfeiriad e-bost | | Gwiriwch |

Gallwch llywiwch drwy'r ffurflen gan ddefnyddio'r hyperddolenni glas o dan, neu drwy glicio ar dab y weithlen berthnasol.

| Adran | Oes unrhyw wallau dilysu? |
|---|---|
| Hafan | Oes |
| 1. Manylion y darparwr | Oes |
| 2. Cymwysterau | Oes |
| 3. Recriwtio a Chadw | Oes |
| 4. Gweithlu | Oes |

Gweler fy mhroffil gweithlu

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ffurflen cysylltwch â Data Cymru ar:** PIEnquiries@data.cymru

Sylwadau cyffredinol

Nesaf

# Atodiad B - Tablau ychwanegol

### Tabl 7: Nifer y darparwyr gofal a reoleiddir ac amcangyfrif o nifer y staff a gyflogir yn ôl rhanbarth, 2019[11]

| | Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir | Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir (amcangyfrif) | Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir am bob 1,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 46 | 2,500 | 3 |
| Canolbarth & Gorllewin | 39 | 1,500 | 3 |
| Bae'r Gorllewin | 48 | 3,000 | 6 |
| De-Dwyrain | 89 | 4,000 | 3 |
| **Cymru** | 222 | 11,500 | 4 |

### Tabl 8: Nifer y darparwyr gofal a reoleiddir yn ôl math a nifer y staff a gyflogir, Cymru, 2019

| | Gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir | Staff a gyflogir gan gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir (amcangyfrif) |
|---|---|---|
| Preswyl | 112 | 4,000 |
| Cartref | 43 | 4,000 |
| Dydd ac arall | 59 | 2,500 |
| Cymysg | 8 | 500 |
| **Cyfanswm** | 222 | 11,500 |

[11] Daw'r ffigurau poblogaeth a ddefnyddir am y cyfrifiad o Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2018 a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


**Tabl 9: Nifer y darparwyr gofal a reoleiddir a arolygwyd gan awdurdodau lleol**

| | **2019** |
|---|---|
| Ynys Môn | 9 |
| Gwynedd | 13 |
| Conwy | 5 |
| Sir Ddinbych | 3 |
| Sir y fflint | 6 |
| Wrecsam | 5 |
| Gogledd Cymru | 41 |
| | |
| Powys | 15 |
| Ceredigion | 7 |
| Sir Benfro | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 12 |
| Canolbarth & Gorllewin | 35 |
| | |
| Abertawe | 17 |
| Castell Nedd Port Talbot | 19 |
| Pen y Bont ar Ogwr | 12 |
| Bae'r Gorllewin | 48 |
| | |
| Bro Morgannwg | 6 |
| Rhondda Cynon Taf | 23 |
| Merthyr Tudful | 5 |
| Torfaen | 4 |
| Sir Fynwy | 1 |
| Casnewydd | 8 |
| Caerdydd | 5 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 18 |
| De-Ddwyrain | 70 |
| | |
| **Cymru** | **194** |


**Tabl 10: Canran y ffurflenni a ddychwelwyd ar gyfer pob nodwedd, Cymru**

| | % |
|---|---|
| | **2019** |
| Ethnigrwydd | 86 |
| Oriau a weithiwyd | 87 |
| Math o gontract | 90 |
| Rhyw | 91 |
| Oed | 88 |


**Ffigur 10a: Canran y staff gofal preswyl a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2019**




**Ffigur 10b: Canran y staff gofal cartref a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2019**





**Ffigur 10c: Canran y staff gofal dydd ac arall a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2019**




#### Ffigur 10ch: Canran y staff 'gofal cymysg' a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2019





#### Figure 11a: Canran y staff gofal preswyl mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019




**Ffigur 11b: Canran y staff gofal cartref mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019**





**Ffigur 11c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019**




### Ffigur 11ch: Canran y staff 'gofal cymysg' mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2019





### Ffigur 12a Canran y staff gofal preswyl mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2019




**Ffigur 12b: Canran y staff gofal cartref mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2019**





**Ffigur 12c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2019**



**Ffigur 12ch: Canran y staff ‘gofal cymysg’ mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2019**




**Ffigur 13: Statws contractiol staff gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir yn ôl math o wasanaeth, Cymru, 2019**



**Data Cymru yn rhan o deulu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gennym gysylltiadau gweithio cadarn ac uniongyrchol â llywodraeth leol ers tro. Am flynyddoedd lawer rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion i wella drwy amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer llywodraeth leol. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu defnyddio yn ogystal i gefnogi gwelliannau mewn sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.**

**Nod ein hystod o wasanaethau arbenigol yw eich helpu chi i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio'n effeithiol.**

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.data.cymru neu ffoniwch 029 2090 9500.**